Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

# Ein Datganiad Etholiadol



canalrivertrust.org.uk

# Mae ein camlesi yn bwysig

Yn bwysig nid yn unig i'r 10 miliwn o bobl sy'n ymweld â nhw'n rheolaidd ac yn teimlo'n well o'r herwydd, ond i bawb arall hefyd - mae camlesi yn gwella'r amgylchedd naturiol, yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd, ac yn rhan annatod o'n cyflenwad a diogeledd ein dŵr yn y dyfodol.

Mae'r camlesi yn rhan o'n stori ni'n genedlaethol - ddoe, heddiw ac yfory. Maen nhw'n dreftadaeth fyw, unigryw yn y byd. Maen nhw'n rhan annatod o'n seilwaith cenedlaethol, gan gynhyrchu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd enfawr.

Rydym ni yn Glandŵr Cymru, yr ymddiriedolaeth camlesi ac afonydd, yn falch o gynnal yr asedau anhepgor hyn er budd pawb. Mae gennym record gref ond gwyddom y gallwn wneud llawer mwy, gyda phartneriaeth dda â'r llywodraeth.

Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

Glandŵr Cymru yw'r elusen sy'n gweithio i gynnal ac addasu'r rhwydwaith 2000 milltir eiconig hwn ar gyfer y dyfodol. Rydym ni'n ymroi i sicrhau ei ffyniant er budd miliynau o bobl, mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, ac yn gwneud cyfraniad allweddol wrth fynd i'r afael â rhai o heriau mawr ein hoes.

Mae heriau aruthrol yn wynebu llywodraeth nesaf San Steffan - o'r argyfwng hinsawdd a'i effaith ar natur, dŵr a'r amgylchedd, i'r anghydraddoldebau, a'r argyfyngau costau byw ac iechyd sy'n prysur waethygu.

Mae ein rhwydwaith camlesi dan fygythiad yn sgil effeithiau tywydd eithafol, sy'n ymestyn ein hadnoddau i'r eithaf gan o bosibl beryglu bywydau a bywoliaethau, ein treftadaeth werthfawr a'n cynefinoedd natur.

Ac eto, gyda'r bartneriaeth gywir gyda'r llywodraeth, gwyddom y gallwn barhau i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gan ddiogelu'r enillion enfawr y gall rhwydwaith camlesi cadarn eu cyflawni i Gymru a Lloegr - yn dilyn asesiad annibynnol nodwyd bod y rhwydwaith yn darparu gwerth £4.6 biliwn mewn gwerth cymdeithasol blynyddol a budd economaidd ariannol o £1.5 biliwn.

## Rydym ni'n galw ar bob plaid wleidyddol i wneud y canlynol:

Cydnabod cyfraniad ein rhwydwaith mewndirol o gamlesi, cronfeydd dŵr a dociau i bobl, cymunedau a busnesau ledled y wlad; i natur; i'r cyflenwad dŵr; ac fel rhan o'n brwydr yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.

Ymrwymo i fuddsoddi yn ein dyfrffyrdd mewndirol - gan sicrhau eu bod yn rhan hanfodol o ddyfodol gwyrddach a mwy cynaliadwy.

## Sut allwn ni wneud gwahaniaeth, gyda'n gilydd

Gyda'r partneriaethau a'r cymorth cywir, gall seilwaith ein camlesi wneud y canlynol.

### Cefnogi iechyd a lles ar garreg y drws i dros naw miliwn o bobl

Mae ein camlesi yn cynnig mynediad am ddim i ofod 'gwyrdd a glas' a natur i filiynau - rhodd iechyd a lles cyhoeddus cost isel o'r gorffennol, sy'n llifo trwy lawer o'n cymunedau trefol mwyaf difreintiedig. I lawer, dyma'r unig le o'r fath o fewn cyrraedd. Mae'n hanfodol bod y mannau hyn yn cael eu rheoli'n dda ac yn ddiogel, er mwyn annog pobl i'w defnyddio ac elwa arnyn nhw.

### Diogelu bywydau a bywoliaethau rhag effeithiau cynyddol newid hinsawdd

Mae bodolaeth a chadernid ein rhwydwaith o gamlesi, ynghyd â'n systemau rheoli dŵr, yn rhan bwysig o'r dirwedd amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r rhwydwaith yn darparu amddiffynfeydd sy'n cyfateb i werth biliynau o bunnoedd o gadernid gwrthsefyll llifogydd.

O'i gynnal a'i gadw'n briodol, mae ein rhwydwaith yn cynnig cyfle i symud dŵr, gan sicrhau diogeledd dŵr ar adeg pan mae hyn dan fygythiad cyson. Mae ein camlesi rhyng-gysylltiedig yn caniatáu symud dŵr o ardaloedd gwlypach i ardaloedd sychach - fe'u defnyddir eisoes i gyflenwi dŵr yfed i Lundain, Bryste a Swydd Gaer, gyda phrosiectau eraill ar y gweill.

Ar y llaw arall, heb fuddsoddiad digonol, gallai methiant unrhyw un o dros 1000 o'n hasedau beri risg sylweddol i fywyd ac eiddo: mae 70 o'r cronfeydd dŵr hynaf yn ein gofal yn cael eu hystyried yn rhai risg uchel, ac mae dros hanner ein gwariant arfaethedig ar asedau yn mynd ar ddiogelwch cronfeydd dŵr.

### Cefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth ar hyd ein 'parc llinellol' 2000 milltir o hyd

Mae camlesi yn gynefin hollbwysig i fywyd gwyllt dan fygythiad ar adeg pan mae bioamrywiaeth y DU mewn argyfwng. Ein rhwydwaith ni yw man gwyrdd a glas llinellol hiraf y DU ac mae'n rhan hanfodol o rwydwaith adfer natur yr ynysoedd hyn - coridor bywyd gwyllt 2000 milltir o hyd sy'n cysylltu mannau gwyrdd trefol ar gyfer bywyd gwyllt, ac sy'n gartref i lawer o rywogaethau bob dydd a gwarchodedig.

## Cyfrannu at ffyniant economaidd

Mae ein rhwydwaith o gamlesi a strwythurau treftadaeth cysylltiedig yn cynhyrchu tua £1.5 biliwn o fudd economaidd y flwyddyn i Gymru a Lloegr drwy fusnesau lletygarwch, twristiaeth a morol, gan gefnogi dros 80,000 o swyddi.

Ar ben hynny, mae gwerth economaidd a chymdeithasol adfywio trefol gyda dŵr wrth ei galon wedi ei bwysleisio sawl gwaith - mae'n trawsnewid lleoedd ac yn ail-greu cymunedau lle mae'r angen mwyaf.

## Annog atebion ynni carbon isel arloesol

Gan redeg trwy galon ein trefi a'n dinasoedd, mae ein camlesi a'n dociau yn cyfrannu at ddyfodol carbon isel, gan gynnig llwybrau di-draffig ar hyd ein llwybrau tynnu ar gyfer teithio lleol yn ogystal â cherdded, rhedeg a beicio hamdden, a llwybrau cludo nwyddau ar ddŵr.

Mae ynni cudd y dŵr ei hun yn cynnig rhagor o gyfleoedd cyffrous - gall oeri ardaloedd trefol mewn tywydd poeth, darparu gwres ac oeri carbon isel ar gyfer adeiladau cyfagos, a chynhyrchu ynni gwyrdd trwy gynlluniau ynni dŵr.

# Helpwch ni i sicrhau dyfodol ein camlesi

Mae ein camlesi yn hanfodol i'r byd heddiw, mewn modd na ddychmygodd eu penseiri gwreiddiol 250 mlynedd yn ôl. Rhaid i ni beidio â'u cymryd yn ganiataol. Gyda'r gefnogaeth gywir, gall ein camlesi barhau i gyflawni mwy o fuddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd nag erioed i bawb.

Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

canalrivertrust

Mwynhau · Gweithredu · Gwirfoddoli · Cyfrannu

canalrivertrust.org.uk

Rhif Elusen 1146792

June 2024